**Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser**

**6 Mehefin 12-2pm, Ystafelloedd Seminar 1 a 2 yn y Pierhead (i fyny'r grisiau yn y Pierhead)**

**Y Gweithlu Trin Canser a'r cyfarfod cyffredinol blynyddol.**

**Agenda**

12.00 - 12.20 Cinio

12.20 - 12.30 Cyflwyniad i'r cyfarfod a'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol; ail-enwebu swyddogion. Julie Morgan AC.

12.30 - 13.00 Cyflwyniadau ar brinder staff yn y gweithlu trin canser gan:

Dr Martin Rolles, Oncolegydd Clinigol Ymgynghorol, Arweinydd Canser Bwrdd Iechyd Lleol Abertawe Bro Morgannwg. 10 munud

Dr Rob Jones, Arweinydd Arbrawf Cam 1, Uwch Ddarlithydd ac Oncolegydd Meddygol Ymgynghorol, Prifysgol Caerdydd a Chanolfan Ganser Felindre. 10 munud

Dawn Casey, Uwch Reolwr Datblygu Dysgu Macmillan yng Nghymru. 10 munud

13.00 - 13.30 Trafodaeth

**Yn bresennol**

Cawsom nifer o gynrychiolwyr allanol o elusennau canser, ynghyd ag ymchwilwyr, nyrsys, cleifion a chynrychiolwyr o Rwydwaith Canser Cymru.

Aelodau’r Cynulliad:

David Rees AC

Caroline Jones AC

Mike Hedges AC

Rhun ap Iorwerth AC

**Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol**

Ail-etholwyd Julie Morgan yn unfrydol fel Cadeirydd y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser

Ail-etholwyd Cancer Research UK yn unfrydol fel Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser

**Cyflwyniadau a Thrafodaeth**

Roedd y cyflwyniadau'n canolbwyntio ar sut mae'r gweithlu trin canser yn wynebu prinder staff difrifol yng Nghymru. Mae'r cyflwyniadau ynghlwm. Roedd y prif bwyntiau yn cynnwys y canlynol:

- Mae angen rhaglen strategol Cymru gyfan ym maes recriwtio i sicrhau cynaliadwyedd yn y tymor hir.
- Mae angen cyllid ar sail Cymru gyfan hefyd.
- Mae'r byrddau iechyd lleol yn ymgymryd â darnau o waith unigol er mwyn gwneud gwelliannau, ond maent yn gorfod ymdopi â chyfyngiadau ariannol difrifol a phwysau sy'n cystadlu â'i gilydd. Mae'n anodd gwneud gwelliannau cynaliadwy ledled Cymru, ac ar hyn o bryd mae lefelau anghyson o staff ac adnoddau i'w cael ledled Cymru.

- Er enghraifft,  mae gan bob un o'r 3 Canolfan Ganser yng Nghymru drefniadau comisiynu ar wahân a lefelau gwahanol o gyllid ac adnoddau. Mae Canolfan Ganser Felindre yn rheoli ei hun a'i phroses gomisiynu ei hun, mae Canolfan Ganser Gogledd Cymru yn cael ei chyllido a'i gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Lleol Betsi Cadwaladr, ac mae Canolfan Ganser Abertawe hefyd yn cael ei rheoli gan y bwrdd iechyd lleol. Yn ogystal â hynny, mae'n trin cleifion sy'n byw cyn belled ag Aberystwyth, sy'n golygu taith 4 awr i gleifion i fynd yn ôl ac ymlaen.
- Mae angen mwy o ragnodi o bell gydag unedau cemo dan arweiniad nyrsys yn y gymuned.
- Mae prinder difrifol o ffisegwyr meddygol gan fod llawer yn mynd i weithio ym maes diwydiant.
- Mae prinder mawr o oncolegwyr clinigol felly mae angen i ni allu denu mwy o weithwyr o dramor.
- Ar hyn o bryd mae angen 10 oncolegydd arall yng Nghymru, ond nid yw'n glir pwy fyddai'n gallu ariannu'r swyddi hyn na sut y gellid eu hariannu (drwy Lywodraeth Cymru, neu a fyddai cyllidebau'r byrddau iechyd lleol yn gallu talu'r costau?).
- Tynnodd Dr Jones sylw at ba mor anodd yw hi i gyflawni gwaith treialu clinigol Cam 1 ochr yn ochr â'i waith oncoleg glinigol.
- Dywedodd hefyd fod pryder ynghylch y diffyg cynaliadwyedd a'r gallu i gynllunio dros y tymor hir mewn treialon clinigol oherwydd nad oes modd cario cyllidebau ymlaen bob blwyddyn.
- Mae angen gwahanu treialon Cam 1 o waith treialon clinigol eraill oherwydd y gwahaniaethau sy'n gysylltiedig â chynnal treial Cam 1 a threialon clinigol eraill.
- Mewn perthynas â nyrsys canser, dywedodd Dawn Casey fod achosion o ganser yn cynyddu ac yn dod yn fwyfwy cymhleth o ganlyniad i fathau eraill o gyd-forbidrwydd .
- Maent wedi gweld cynnydd o 46% yn yr atgyfeiriadau, ac mae arbenigwyr nyrsio canser bellach yn treulio tua 30% o'u hamser yn gwneud gwaith gweinyddol.
- Mae'n bwysig bod pob claf canser yn gallu cael gafael ar arbenigwr nyrsio canser gan fod modd iddynt ymateb i'r claf o fewn 2 ddiwrnod, sy'n wahanol i'r broses o weld nyrs gyffredinol, a all gymryd hyd at 14 wythnos.
- Disgwylir i 46% o nyrsys canser Bwrdd Iechyd Lleol Cwm Taf ymddeol yn y 5 mlynedd nesaf.
- Mae arbenigwyr nyrsio canser yn weithwyr unigol, felly mae'n anodd hyfforddi nyrsys eraill i wneud y gwaith, ac mae'r broses recriwtio sydd ar waith ar hyn o bryd yn gymhleth iawn, sy'n golygu y gall yr amser rhwng hysbysebu swydd wag a llenwi'r swydd honno fod rhwng 8 a 12 mis.

**Camau Dilynol**

Roedd Aelodau'r Cynulliad yn awyddus iawn i archwilio'r materion a godwyd yn y cyflwyniadau ymhellach, felly bydd Ysgrifenyddiaeth y Grŵp Trawsbleidiol ar Ganser yn dosbarthu briff, Cwestiynau ar gyfer y Cynulliad ac awgrymiadau yn seiliedig ar y trafodaethau hyn iddynt.